

LEWIS, Syr HENRY (1847 - 1923), lleygwr blaenllaw gyda'r Methodistiaid Calфинаidd yng Ngogledd Cymru

Enw: Henry Lewis
Dyddiad geni: 1847
Dyddiad marw: 1923
Priod: Anne Lewis (née Edwards)
Rhiant: Thomas Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: lleygwr blaenllaw gyda'r Methodistiaid Calфинаidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Mab i THOMAS LEWIS (1821 - 1897), a oedd yntau'n fab i Thomas Lewis o Lanwenllwyfo a Chemaes ym Môn (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 257). Sefydlodd Thomas Lewis yr ail yn 1840 fasnach yd a blawd, lwyddiannus iawn, ym Mangor. O 1886 hyd 1894 bu'n aelod seneddol dros Fôn, gan ddilyn Richard Davies. Teithiodd gryn lawer, a byddai'n darlithio mor fynych ar Balesteina nes cael yr enw 'Thomas Palestina Lewis.' Bu farw 2 Rhagfyr 1897.

Ganwyd Henry Lewis ym Mangor, 21 Tachwedd 1847, ac addysgwyd yn Ysgol Friars, Bangor, ac yng Ngholeg y Methodistiaid Calфинаidd, y Bala. Tyfodd yn ŵr pwysig iawn ym Mangor, ac yn ei gyfundeb yng Ngogledd Cymru. Bu'n gymwynaswr mawr i Goleg y Gogledd, yn enwedig pan aethpwyd ati i sicrhau tir at godi adeiladau newyddion y coleg. Cyhoeddodd yn 1901 (gyda H. Barber) *The History of Friars School, Bangor*, ac yn 1907 lyfr ar *Eglwys y Tabernacl, Bangor*, sy'n cynnwys hefyd lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar hanes y dref. Priododd (1872) ag Anne, ferch Roger Edwards; cawsant saith o blant. Urddwyd ef yn farchog yn 1911. Bu farw 16 Tachwedd 1923.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Who was who?

papurau yn Llyfrgell Coleg y Gogledd

ar Thomas Lewis, gweler ymhellach W. Hoble, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, vi, 290 sqq

Darllen Pellach

T. Marchant Williams, *Welsh Members of Parliament, 1894* (Cardiff 1894)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733766

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). LEWIS, Syr HENRY (1847 - 1923), lleygwr blaenllaw gyda'r Methodistiaid Calфинаidd yng Ngogledd Cymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-HEN-1847>

frannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government